# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fercher 17eg o Fawrth 2021 am 8.00yh yn rhithiol drwy Zoom.

**PRESENNOL:** Cyng G Evans, J Phillips, W Evans, H James, R Gallie, D Lewis, I Saer, J Lewis (CSC) a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

Hefyd yn bresennol oedd Mr Christopher Smoothy. Croesawodd y Gadair Mr Smoothy a oedd wedi ei apwyntio fel y clerc newydd ar ol cyfweliad efo'r Cyng W Evans a G Evans. Fe fydd Mr Smoothy yn dechrau ar ei waith yn Ebrill 2021.

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 20fed o Ionawr a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Cyng W Evans a Cyng J Lewis (CSC) – Eitem 10 Rhoddion

**MATERION YN CODI:**
Mae Rosemarie Davies wedi cytuno i ymgymryd yr archwiliad menwol am 2020/21

**GOSOD TIR CYNGOR:**
Derbyniwyd pedair cynnig am y 9.25 erw o dir cyngor oedd ar gael i rentu. Yn dilyn trafodaeth hir penderfynwyd cynnig y tir i Mr R Jackson.

**GOHEBIAETH:**
Fe wnaeth Un Llais Cymru ddanfon ffurflen adnewyddu aelodaeth am 2021/2022. Penderfynodd y Cyngor adnewyddu ei aelodaeth am £70.00.

**DERBYNNEB:** Dim

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| SSE – trydan i'r neuadd gymuned (10/11/20 – 01/02/2021) | £32.58 |
| Aled Jones – torri clawdd yn cae chwarae Blaenwaun | £102.00 |
| K Bowen – cyflog y clerc Ebrill 2020/Mawrth 2021 | £1200.00 |
| HMRC – PAYE 2020/2021 | £300.00 |
| Un Llais Cymru - aelodaeth 2021/2022 | £70.00 |

**ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £10,574.40 |
| Cyfrif Trysorydd | £15,114.83 |

Gwnaeth y Cyngor nodi fod yna rhai biliau i'w disgwyl cyn diwedd y flwyddyn ariannol cyfredol – golau stryd (£960.19), treuliau'r clerc (£89.86) a unrhyw roddion penderfynnau'r cyngor i'w gwneud. Penderfynodd y Cyngor i glustnodi £8000.00 ar gyfer cyfarpar chwarae newydd yng nghae chwarae Blaenwaun, yn ychwanegol i'r £7000.00 a glustnodwyd y llynedd. Penderfynodd y Cyngor hefyd i glustnodi £5000.00 ar gyfer prynu a sefydlu dau ddiffibrilwyr, un yn Blaenwau a'r naill yng Nghwmfelin Mynach neu Llanwinio.

**RHODDION:**
*(Gwnaeth Cyng W Evans a J Lewis (CSC) ill dau ddatgan diddordeb a gadawont y cyfarfod)*
Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth papur cymunedol Y Cardi Bach, C.Ff.I Sir Gâr, Cerebal Palsy Cymru, Cruse – Gofal Mewn Galar a Cancer Information and Support Services.
Penderfynodd y Cyngor roddi £250.00 i'r Cardi Bach.
*(Gwnaeth Cyng W Evans a J Lewis (CSC) ail-ymuno a'r cyfarfod.)*

**CYNLLUNIO:** Dim

**U.F.A.**
Gwnaeth y Cyngor drafod torri porfa a chynnal a chadw offer yn cae chwarae Blaenwaun. Cynigiodd Cyng J Lewis (CSC) edrych i mewn i'r oedi yn nhrwsio twll yn ochr yr heol ger fferm Elwyn a ail-osod arwydd heol yn croesffordd Passby.

Diolchodd y Gadair i Mr Kevin Bowen am ei waith fel clerc dros y chwe blynedd ddiwethaf.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher 19eg o Fai 2021 drwy Zoom.**